

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 26 Gorffennaf 2022**

Eitem ar yr Agenda	Pwnc	Penderfyniad
1	YMDDIHEURIADAU	Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.
2	DATGAN CYSYLLTIAD	<p>Datganodd yr aelodau canlynol ddiddordeb personol yn rhaglen 8 ar y rhaglen ‘Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu - Band B’ -</p> <p>Roedd gan y Cynghorydd Gill German ddau o blant yn Ysgol Uwchradd Prestatyn                      Roedd gan y Cynghorydd Jason McLellan blentyn yn Ysgol Uwchradd Prestatyn                      Roedd y Cynghorydd Emrys Wynne yn Llywodraethwr yn Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun</p>
3	MATERION BRYD	Caniataodd yr Arweinydd i gwestiwn gael ei roi gerbron y Cabinet am ffioedd gofal ac i ateb gael ei roi hefyd.
4	COFNODION	<b>PENDERFYNWYD</b> derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2022 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.
5	ADOLYGU PENDERFYNIAD Y CABINET YN YMWNEUD Â'R CYNLLUN PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG ARFAETHEDIG AR GYFER CAFFAEL TIR (RHYDD-DDALIADOL A LES-DDALIADOL) I DDIBENION DAL A STORIO CARBON A GWELLIANNAU ECOLEGOL	<p><b>PENDERFYNWYD</b> bod y Cabinet yn -</p> <p>(a) cydnabod casgliadau, pryderon ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn dilyn ei adolygiad o benderfyniad y Cabinet ar 15 Chwefror 2022 o ran ‘Cynllun Penderfyniadau Dirprwyedig Arfaethedig ar gyfer Caffael Tir (Rhydd-ddaliadol a Lesddaliadol) i Ddibenion Dal a Storio Carbon a Gwella Ecolegol’;</p> <p>(b) yn cytuno i ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol, gyda'r bwriad o gyflymu'r broses benderfynu ar gyfer prynu tir, ac fel rhan o'r adolygiad hwnnw bydd yn ystyried ac yn cymryd i ystyriaeth yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu fel y nodir ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad, a</p> <p>(c) gofyn i swyddogion ddod ag adroddiad gerbron y Cabinet ar yr adolygiad hwnnw, i'w ystyried gan y Cabinet ym mis Hydref.</p>

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 26 Gorffennaf 2022**

Agenda Item No	Topic	Decision
6		
6	Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN	<p><b>PENDERFYNWYD</b> bod y Cabinet yn -</p> <p>(a) cymeradwyo datblygiad pellach rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn Sir Ddinbych ac yn rhanbarthol drwy fewnbwn swyddogion, yn unol â'r egwyddorion a nodir yn yr adroddiad;</p> <p>(b) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr a'r Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd i ddatblygu a chyflwyno blaenoriaethau Sir Ddinbych ar gyfer eu cynnwys yn y Strategaeth Fuddsoddi Ranbarthol i alluogi i gyllid y rhaglen gael ei dynnu i lawr, a</p> <p>(c) cefnogi'r cynnig i ofyn i Gyngor Gwynedd weithredu fel corff arweiniol i gyflwyno'r Strategaeth Fuddsoddi Ranbarthol i Lywodraeth y DU ac i arwain darpariaeth y rhaglen wedi hynny.</p>
7	CAFFAEL GWASANAETH CEFNOGI NEWYDD AR GYFER LLETY DROS DRO MEWN ARGYFWNG (ATAL DIGARTREFEDD)	<p><b>PENDERFYNWYD</b> bod y Cabinet yn -</p> <p>(a) cymeradwyo cychwyn y broses gaffael fel sydd wedi'i nodi yn y Ffurflen Gomisiynu sydd yn Atodiad 1 yr adroddiad, a</p> <p>(b) cadarnhau ei fod wedi darllen ac wedi ystyried yr Asesiad Lles (Adroddiad Asesiad Effaith ar Les ar gyfer y Cynllun Cyflawni Grant Cymorth Tai 2022 – 25 yn Atodiad 3 yr adroddiad)</p>
8	CYMUNEDAU CYNALIADWY AR GYFER DYSGU - BAND B	<p><b>PENDERFYNWYD</b> bod y Cabinet yn cadarnhau barn y Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Addysg nad oedd unrhyw newid arwyddocaol wedi digwydd o ran cyflwr adeiladau ysgolion a bod y trefn polisi presennol ysgolion yn dal yn gyfredol a chywir.</p>

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 26 Gorffennaf 2022**

Agenda Item No	Topic	Decision
9	ADRODDIAD CYLLID	<b>PENDERFYNWYD</b> bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2022/23 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllido y cytunwyd arni.
10	RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET	<b>PENDERFYNWYD</b> nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.